# HUGHES, GRIFFITH WILLIAM (1861 - 1941), cyfrifydd a cherddor

**Enw:** Griffith William Hughes
**Dyddiad geni:** 1861
**Dyddiad marw:** 1941
**Rhiant:** Ann Hughes
**Rhiant:** Griffith Hughes
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfrifydd a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Economeg ac Arian; Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yng Nghefnmawr 22 Chwefror 1861. Mab i Griffith ac Ann Hughes. Wedi gorffen ei addysg yn yr ysgol elfennol, rhoddodd y fonesig Williams Wynn flwyddyn o addysg iddo yn ysgol ramadeg Rhiwabon. Wedi gorffen ei gwrs addysg, penodwyd ef yn gyfrifydd yn swyddfa cwmni glo Wynnstay. Yn fachgen cafodd ei addysg gerddorol yn nosbarth J. O. Jones, Pen-y-cae, ac wedi hynny yn nosbarth Edward Hughes. Yn 1889 sefydlwyd cymdeithas gorawl, Cefn-mawr, a chôr meibion, a phenodwyd ef yn arweinydd y ddau gôr, a pherfformiwyd amryw o gyfanweithiau gan y gymdeithas gorawl. Bu am gyfnod yn arweinydd y canu yng nghapel mawr (M.C.) Rhos. Gwnaeth astudiaeth o gyfundrefn y *Tonic Solffa*, ac enillodd y radd o G. & L.T.S.C. y coleg, ac yn 1900 etholwyd ef yn aelod o gyngor coleg y Tonic Solffa. Yn 1911 penodwyd ef yn arweinydd canu cyflogedig eglwys M.C. Princes Road, Lerpwl, lle y llafuriodd hyd ei ymddiswyddiad yn 1926. Symudodd o Lerpwl i fyw i Brestatyn. Yr oedd yn un o olygyddion *Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd*, 1929. Gwasanaethodd fel beirniad ac arweinydd cymanfaoedd canu cymeradwy trwy Gymru. Cyfansoddodd lawer o anthemau a thonau a fu yn boblogaidd. Bu farw 27 Medi 1941, a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Prestatyn.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau

*Y Cerddor*, Tachwedd 1902

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748831

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu